Bwyd a Diod Cymru
Food & Drink Wales

# Gweledigaeth ar gyfer y diwydiant Bwyd a Diod o 2021.

## Adeiladu ar ein llwyddiant.

llyw.cymru/bwydadiodcymru
bwydadiodcymru @bwydadiodcymru bwyd_a_diod_cymru





# Mae'n bryd edrych tuag at ddyfodol bwyd a diod yng Nghymru.

Fel gwlad, rydym ni wedi wynebu dwy flynedd anghyffredin yn byw gyda Covid-19 ac mae'n deg dweud ei bod wedi newid ein byd, ein ffordd o fyw, y ffordd rydym ni'n gweithio. Mae wedi ysgogi rhywfaint o ail-feddwl a sbarduno arloesedd ar gyflymder digynsail. Mae'n deg dweud hefyd ein bod wedi cadw at ein hymgyrch strategol ar gyfer bwyd a diod yng Nghymru. Fel rhan o'n hadferiad, mae gan ein diwydiant bwyd a diod rôl allweddol - mae pawb yn bwyta ac yn yfed, a sicrhau bod ein diwydiant yn parhau i fod yn gryf ac yn wydn yw un o fy amcanion allweddol. Gyda hyn mewn golwg, mae hwn yn amser da i bwyso a mesur ac edrych ymlaen, i gynllunio sut y gallwn dyfu, cynyddu cynhyrchiant, dod yn fwy cynaliadwy, ychwanegu gwerth, a dod yn frand sy'n cael ei gydnabod am ragoriaeth ledled y byd.

## Rhwng 2014 a 2020 gwnaethom ni osod y targed uchelgeisiol i'n hunain o dyfu gwerth y diwydiant i dros £7bn.

## Gyda'n gilydd gwnaethom ni gyflawni'r nod hwnnw - a rhagori arno.





**Lesley Griffiths AS**
Y Gweinidog Materion Gwledig a Gogledd Cymru, a'r Trefnydd

Calon ein llwyddiant fu gwir bartneriaeth rhwng busnes, y byd academaidd a'r llywodraeth.

Yn 2019 gofynnom ni i'r diwydiant ein helpu i lunio gweledigaeth newydd. Diolch enfawr i'r nifer o fusnesau a roddodd eich amser, mewnwelediad a barn. Mae eich ymatebion wedi helpu i lunio'r weledigaeth newydd hon, fydd yn ceisio adeiladu ar y llwyddiant hwnnw dros y blynyddoedd i ddod.

Yn y tudalennau hyn, byddwn yn nodi ein cenhadaeth, sef cael diwydiant bwyd a diod llewyrchus sydd ag enw da yn fyd-eang am ragoriaeth. Byddwn yn egluro sut mae'n cyd-fynd â'r nodau a'r gwerthoedd ehangach sydd gennym ni ar gyfer ein heconomi a'n cymdeithas - egwyddorion cynaliadwyedd a thegwch sy'n sail i'r Gymru rydym ni eisiau bod.

Ni allwn anwybyddu effeithiau Covid-19 a'r DU yn gadael yr Undeb Ewropeaidd. Mae'r ddau'n parhau i effeithio ar y diwydiant, a'r gymdeithas ehangach. Mae gweithlu'r diwydiant wedi ymateb yn wych ond byddwn yn parhau i deimlo'r ôl-effeithiau am flynyddoedd i ddod.

Rhaid inni beidio â gadael y naill na'r llall, pa mor heriol bynnag, dynnu sylw oddi wrth ein nodau tymor hir sef hyrwyddo twf a chynhyrchedd, hyrwyddo tegwch mewn gwaith, sicrhau bod busnesau'n cyrraedd y lefelau uchaf o gynaliadwyedd amgylcheddol a'u helpu i gyflawni hyn trwy wella eu henw da a'u safonau.

Mae'r diwydiant bwyd a diod, er gwaethaf yr holl heriau y mae wedi'u hwynebu, yn parhau i fod yn hynod o wydn. Mae'n ddiwydiant anhygoel o amrywiol, gydag ystod eang o gynhyrchion yn ei bortffolio. Mae'n bodoli ym mhob cornel o Gymru, mewn ardaloedd trefol a gwledig.

Mae'r diwydiant hefyd yn amrywiol iawn o ran siâp a maint busnesau. Mae cyfle i bawb dyfu a ffynnu: o fusnesau micro i ganolig i raddfa fawr – a phawb yn rhannu gweledigaethau a gwerthoedd Cymru yn llawn balchder.

Ymdrech ar y cyd yw hon. Mae angen i bob un ohonom ni weithio gyda'n gilydd tuag at ein nodau ar y cyd. Rydym ni'n gwybod o strategaethau blaenorol bod gan y diwydiant bwyd a diod ran hanfodol i'w chwarae yn esblygiad economi Cymru ac mae awydd cryf i gynnal y momentwm hwn. Rydym ni'n glir mai dim ond y dechrau yw'r amcanion a nodir yma a bod yn rhaid i'r weledigaeth hon fod â'r gallu i fod yn hyblyg fel y gall ymateb i amgylchiadau sy'n newid. Mae hyn yn hanfodol i adeiladu ar ein llwyddiant ar y cyd.

# Ein gweledigaeth.

Creu sector bwyd a diod cryf a bywiog yng Nghymru sydd ag enw da ym mhedwar ban byd am ragoriaeth, ac sydd ag un o'r cadwyni cyflenwi mwyaf cyfrifol yn y byd yn amgylcheddol ac yn gymdeithasol.

## Ein cenhadaeth.

Tyfu'n busnesau, o ran eu maint, eu gwerth a'u cynhyrchiant.

Bod o fudd i'n pobl a'n cymdeithas.

Hyrwyddo Cymru a dathlu'n llwyddiant fel Cenedl Fwyd fyd-eang.

## Ein nodau.

**Twf a chynhyrchiant**
Bydd ein sector bwyd yn tyfu'n gynt nag yng ngweddill y DU.

**Gwaith Teg**
Credwn mewn Cymru Gwaith Teg, lle mae pawb yn cael eu gwobrwyo, eu clywed a'u cynrychioli'n deg, a lle maent yn ddiogel ac yn cael eu parchu.

**Cynaliadwyedd**
Byddwn yn ymgyrraedd at y lefelau uchaf o gynaliadwyedd amgylcheddol.

**Enw da a safonau**
Bydd mwy o fusnesau'n cael eu hachredu, yn ennill gwobrau, ac yn cyrraedd y safonau uchaf o ran hylendid bwyd.

## Ein partneriaeth.

**Helpwch ni i'ch helpu chi**
Rydym i gyd yn rhan o ddarlun mwy. Mae gan Gymru nodau llesiant clir, sydd i'w gweld yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol. Byddwn yn gweithio mewn partneriaeth gyda chwmnïau bwyd a diod sydd yn rhannu'r gwerthoedd hyn, a byddwn yn cefnogi prosiectau sydd yn ein helpu i gyrraedd ein nodau. Beth am weithio gyda'n gilydd i greu Cymru gwell i bawb?



# Ein hamcanion.

**Bydd y mesurau llwyddiant allweddol hyn yn rhoi syniad clir i ni i gyd o sut rydym ni'n gwneud, a'r hyn sydd angen mwy o sylw. Rydym ni'n cyhoeddi popeth ar wefan Bwyd a Diod Cymru, felly ceir cofnod parhaus o'n cynnydd.**

Byddwn yn mesur cynnydd yn erbyn y nodau SMART canlynol, a gallwch ddysgu mwy am sut rydym ni'n mesur ein cynnydd yma: *https://bit.ly/3l2WoOa*

### Twf
Bob blwyddyn, bydd gwerth trosiant sector bwyd a diod Cymru yn tyfu'n gymesur yn fwy na gweddill y DU, ac i o leiaf £8.5bn erbyn 2025.

### Cynhyrchedd
Bydd cyfartaledd tair blynedd Gwerth Ychwanegol Gros (GVA) yr awr a weithir yn y diwydiant yn cynyddu'n gymesur yn fwy na gweddill y DU.

### Gwaith Teg
Bob blwyddyn, bydd cyfran gweithwyr y sector sy'n derbyn Cyflog Byw Cymru o leiaf yn cynyddu, i gyflawni 80% erbyn 2025.

### Achrediad
Bob blwyddyn, bydd cynnydd yng nghyfran y busnesau gweithgynhyrchu yn y diwydiant sydd ag achrediad (e.e. rheoli amgylcheddol, datblygu staff, cynhyrchu a safonau perthnasol eraill).

### Dyfarniadau
Bob blwyddyn, bydd cynnydd yng nghyfran y busnesau gweithgynhyrchu yn y sector sy'n cyflawni dyfarniadau sy'n briodol i'w busnes. Erbyn 2025 bydd o leiaf chwe chynnyrch arall o Gymru yn ymuno â chynllun Dynodiad Daearyddol (GI) y DU.

### Hylendid
Bydd gan 98% o fusnesau sgôr hylendid bwyd o 5 erbyn 2025.

# Dangosyddion eraill.

Byddwn yn monitro targedau a dangosyddion pwysig eraill hefyd. Bydd ein dangosfwrdd yn ddigon hyblyg i ni ychwanegu'r rhain (a mwy) pan fydd eu hangen, ynghyd â data hanesyddol ar gyfer blynyddoedd cynharach.

- Nifer y busnesau yn y diwydiant. Cyfradd flynyddol geni busnesau.
- Nifer y busnesau sy'n gweithredu am bum mlynedd neu fwy.
- Gwerth allforio am y flwyddyn a ffigurau hanesyddol.
- Cyfanswm nifer y gweithwyr.
- Busnesau'n ymrwymo i Addewid Sgiliau Cymru.
- Nifer y busnesau sy'n ailfformiwleiddio cynhyrchion trwy Arloesi Bwyd Cymru a Phrosiect HELIX.

# Ble rydym ni nawr?

Cyn edrych ymlaen, mae'n werth oedi i weld ble rydym ni nawr, ac o ble rydym ni wedi dod.

### Yn ystod cyfnod ein strategaeth ddiwethaf, 2014–2020, gwelsom ni:

**Dwf o 30%,** gan sicrhau'r gwerthiant uchaf erioed o £7.5bn yn 2019, gan ragori ar ein targed o £7bn erbyn 2020.

**16 enw bwyd gwarchodedig** — Dynodiad Daearyddol, neu gynhyrchion GI — wedi cynyddu o bump.

**£550m**
mewn allforion, wedi cynyddu o £408m.

**270**
o enillwyr Great Taste yn 2021.

### Yn 2020 roedd y diwydiant yn cyflogi:

**239,300**
yn y gadwyn gyflenwi Bwyd a Diod.
→ **Trosiant o £22.4bn,**
27,815 o unedau busnes.

**33,600**
yn y Sector Sefydliad Bwyd.
→ **Trosiant o £7.9bn,**
1,465 o unedau busnes.

**22,200**
o weithwyr ym maes gweithgynhyrchu Bwyd a Diod.
→ **Trosiant o £4.9bn,**
590 o unedau busnes.

Am yr Adolygiadau Economaidd diweddaraf, ewch i: *https://bit.ly/3pcbYZd*



# Ar gyfer pwy mae'r weledigaeth hon?

**Pob busnes sy'n ymwneud â'r diwydiant o fanwerthu ac allforwyr, i dwristiaeth, ble bynnag rydych chi a beth bynnag rydych chi'n ei wneud. Dylai gynnwys pawb sy'n gweithio yn niwydiant bwyd a diod Cymru, o fragwyr a phobyddion i weithgynhyrchwyr a phroseswyr.**








# Mae popeth yn gysylltiedig.

**Er bod y weledigaeth hon yn canolbwyntio ar weithgynhyrchu a phrosesu, mae'n cyd-fynd ag ystod gyfan o strategaethau eraill sy'n ein cysylltu â'r gadwyn gyflenwi ehangach: amaethyddiaeth a physgodfeydd, pecynnu, cyfanwerthu, manwerthu – maen nhw i gyd yn gysylltiedig.**

Mae'r weledigaeth hon yn ymwneud â datblygu busnes yn gyfrifol mewn amgylchedd dynamig. Mae'n pwysleisio y bydd cefnogaeth a datblygiad busnes yn cysylltu â'n hymrwymiadau Rhaglen Llywodraeth i wneud Cymru yn lle gwell - adeiladu economi werddach yn seiliedig ar egwyddorion gwaith teg a chynaliadwyedd - a'n hymrwymiad i ddatblygu Strategaeth Bwyd Cymunedol i Gymru.

Wrth gyflawni'r weledigaeth hon, byddwn yn gweithio'n ddi-dor ar draws yr agendâu polisi ehangach fel iechyd cyhoeddus, cymunedau, cynaliadwyedd, yr economi gylchol, datgarboneiddio, masnach, sgiliau a thwristiaeth. Byddwn yn integreiddio ein gweithredoedd fel bod datblygu busnes yn dod â buddion eang. O'u hystyried yn eu cyfanrwydd, mae'r rhain yn creu'r Gymru rydym ni eisiau ei dangos i'r byd: cenedl flaengar, gynyddgar sy'n blaenoriaethu cynaliadwyedd a budd dinasyddion ym mhob agwedd ar lwyddiant economaidd.

Dyma rai o'r meysydd polisi ehangach:

### Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015
Mae'r darn arloesol hwn o ddeddfwriaeth yn ein gyrru i wella ein lles cymdeithasol, diwylliannol, amgylcheddol ac economaidd ym mhopeth a wnawn.

*futuregenerations.wales/cy/*

### Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016
Ein natur, tir, dŵr ac aer yw ein hadnodd gorau. Mae'r Ddeddf hon yn mapio dull newydd, mwy integredig o reoli ein hadnoddau naturiol ar gyfer cynaliadwyedd tymor hir.

*llyw.cymru/deddf-yr-amgylchedd-cymru-2016-taflenni-ffeithiau*

### Ffyniant i Bawb: Cynllun Gweithredu ar yr Economi
Mae'r Cynllun yn gyrru'r ddau nod o dyfu'r economi a lleihau anghydraddoldeb, gyda'r Contract Economaidd yn ganolog iddo: perthynas ddwyffordd rhwng y Llywodraeth a busnes.

*llyw.cymru/ffyniant-i-bawb-y-cynllun-gweithredu-ar-yr-economi*

### Ffyniant i Bawb: Cymru Carbon Isel
Mae'r cynllun hwn yn gosod y sylfeini i Gymru drosglwyddo i fod yn genedl carbon isel, gan nodi 100 o bolisïau a chynigion sy'n lleihau allyriadau'n uniongyrchol ac yn cefnogi twf yr economi carbon isel.

*llyw.cymru/cynllun-cyflawni-carbon-isel*

### Mwy nag Ailgylchu
Strategaeth i wneud yr economi gylchol yng Nghymru yn realiti. Ein nod yw gwneud effeithlonrwydd adnoddau yn rhan o ddiwylliant Cymru, ac mae gan y diwydiant bwyd a diod ran fawr i'w chwarae yn yr economi gylchol.

*llyw.cymru/mwy-nag-ailgylchu*

### Strategaeth a Chynllun Allforio Rhyngwladol i Gymru
Casgliad o strategaethau a chynlluniau i godi proffil Cymru yn fyd-eang, creu cysylltiadau rhyngwladol, a chefnogi allforwyr i ailadeiladu ôl-Covid ac Ymadael â'r UE gyda bwyd a diod fel 'Sector Blaenoriaeth'.

*llyw.cymru/cynlluniau-gweithredu-rhyngwladol*

### Pwysau Iach Cymru Iach
Mae ein strategaeth yn cwmpasu ystod eang o fentrau diwylliannol a ffordd o fyw, gan gynnwys ymrwymiad i wella ein diet.

*llyw.cymru/strategaeth-pwysau-iach-pwysau-iach-cymru-iach*

### Genhadaeth i Gryfhau ac Ailadeiladu'r Economi
Mae'r genhadaeth hon yn nodi ein cynlluniau i adfer ac ailadeiladu rhag difrod economaidd pandemig y coronafeirws.

*llyw.cymru/genhadaeth-i-gryfhau-ac-ailadeiladur-economi*

### Dyfodol Gweithgynhyrchu i Gymru
Nod y cynllun yw datblygu gweithgareddau 'gweithgynhyrchu gwerth uchel' sy'n cael effaith gymdeithasol, economaidd ac amgylcheddol gadarnhaol ar les Cymru.

*llyw.cymru/dyfodol-gweithgynhyrchu-i-gymru-fframwaith-gweithredu*

### Rheoli Tir: Ffermio Cynaliadwy a'n Tir
Byddwn yn cyflwyno Bil amaeth i greu system newydd o gymorth ffermio. Bydd ein Cynllun Ffermio Cynaliadwy yn gwobrwyo ffermwyr sy'n gweithredu i ymateb i'r argyfyngau hinsawdd a natur, gan eu cefnogi i gynhyrchu bwyd mewn ffordd gynaliadwy.

*llyw.cymru/bil-amaethyddiaeth-cymru*

### Croeso i Gymru: blaenoriaethau i'r economi ymwelwyr 2020 i 2025
Byddwn yn parhau i annog busnesau twristiaeth a lletygarwch Cymru i ddefnyddio, a hyrwyddo, mwy o fwyd a diod o Gymru.

*llyw.cymru/croeso-i-gymru-blaenoriaethau-ir-economi-ymwelwyr-2020-i-2025*

### Strategaeth Gwaith Teg
Mae Gwaith Teg yn golygu trin pob gweithiwr â chwrteisi a pharch. Mae'n cynnwys cyflog teg, cydraddoldeb, iechyd a diogelwch, a datblygu sgiliau.

*llyw.cymru/comisiwn-gwaith-teg*

# Dyfodol Sero Net.

**Rydym ni'n datblygu Cynllun Gweithredu Datgarboneiddio ar gyfer y diwydiant cynhyrchu bwyd a diod. Mae'r cyfan yn cael ei danategu gan yr ymchwil a'r dystiolaeth ddiweddaraf.**

**Mae'n hanfodol ein bod yn helpu'r diwydiant bwyd a diod i ddatgarboneiddio - ond hefyd yn cynyddu'r cyfleoedd y mae'r trawsnewidiad i Gymru Sero Net yn eu darparu.**

Mae ein prif weledigaeth a'n cenhadaeth ar gyfer y diwydiant bwyd a diod yn hyrwyddo cyrraedd y lefelau uchaf o gynaliadwyedd amgylcheddol, economaidd a chymdeithasol. Rydym ni'n annog ac yn cefnogi busnesau i ddatblygu eu harferion cynhyrchu i wella olion traed carbon a defnyddio adnoddau, megis gweithio gyda'r Ganolfan Ymchwil Gweithgynhyrchu Uwch ar gysyniadau'r dyfodol gan gynnwys 'ffatri'r dyfodol'. Y 'Contract Economaidd', rydym ni wedi sôn amdano'n gynharach, yw'r adnodd y byddwn yn ei ddefnyddio i sicrhau ymrwymiad a newidiadau diffiniedig.

Un o fesurau llwyddiant ein gweledigaeth yw cynyddu cyfran y busnesau sydd ag achrediad annibynnol sy'n dangos eu bod yn cadw at safonau penodol sy'n cael eu monitro.

Rydym ni wedi mapio cynlluniau achredu presennol sy'n berthnasol i ddatgarboneiddio a byddwn yn cefnogi busnesau i ymrwymo iddyn nhw. Os ydym ni am fynd i'r afael â'r heriau hyn, bydd angen i fusnesau ymrwymo i'r dull hwn fel amod o gefnogaeth y llywodraeth.

Byddwn hefyd yn cymryd camau penodol yma yng Nghymru i osod targedau uchelgeisiol i haneru gwastraff bwyd, ac atal deunyddiau bioddiraddadwy rhag mynd i safleoedd tirlenwi, erbyn 2025. Mae'r rhain yn gamau allweddol ar ein taith i sero gwastraff a charbon sero net.

Er mwyn cefnogi'r nodau cynaliadwyedd amgylcheddol hyn, bydd Llywodraeth Cymru yn cynnal ymchwil i ddeall yn well effaith carbon y gadwyn fwyd a'r systemau cyflenwi yng Nghymru. Yn hanfodol i hyn bydd datblygu ein dealltwriaeth o sut mae gweithgynhyrchwyr bwyd a diod a'u cadwyni cyflenwi'n cyfrannu at y gyllideb garbon a nodi technolegau newydd a all leihau'r effaith carbon trwy'r system fwyd yng Nghymru.

Bydd canlyniadau'r ymchwil yn galluogi Llywodraeth Cymru i ddatblygu cynllun gweithredu penodol sy'n nodi camau priodol ar gyfer lleihau allyriadau carbon ar draws y diwydiant. Bydd y cynllun gweithredu hwn yn darparu cyfeiriad i leihau effaith carbon gweithgynhyrchu a phrosesu trwy effeithlonrwydd prosesau, defnyddio ynni a lleihau gwastraff a bydd yn cysylltu â mentrau eraill Llywodraeth Cymru.











Ar hyn o bryd mae AB InBev yn archwilio'r defnydd o hydrogen gwyrdd heb allyriadau yn eu bragdy ym Magwyr, un o'r bragdai mwyaf yn y DU.

# Syniadau ar gyfer y dyfodol.

**Mae'r weledigaeth hon yn ymwneud ag edrych ymlaen at y dyfodol. Ond mae angen i ni gydnabod effaith dwy her ddigynsail a darodd ddiwydiant bwyd a diod Cymru - a chymdeithas - yn galed.**

Gwnaethom ni weithredu'n gyflym i gefnogi'r diwydiant trwy effaith uniongyrchol pandemig Covid-19 ac Ymadael â'r UE. Roedd ein hamcanion yn glir:

- Cefnogi busnesau i oroesi a chynnal eu cadwyni cyflenwi. Diogelu swyddi.
- Helpu'r diwydiant i wella a thyfu cyn gynted â phosibl. Addasu i dirwedd fasnachu sy'n newid.
- Cadw golwg ar ein nodau tymor hir.

Rydym ni i gyd wedi dysgu gwersi anodd, ond rydym ni hefyd wedi ein hysbrydoli gan y ffordd y gwnaeth y diwydiant ymateb. Gwelsom ni bobl a chymunedau'n dod at ei gilydd. Rydym ni wedi gweld busnesau a gweithwyr yn addasu'n gyflym, gan ddefnyddio syniadau a thechnolegau newydd i ailddyfeisio'u hunain. Rydym ni'n fwy hyblyg a dyfeisgar nag yr oeddem ni'n ei wybod.

Ni fydd effeithiau Covid-19 yn diflannu dros nos, a bydd trafodaethau masnach yn parhau i ddatblygu dros y degawd nesaf. Byddwn yn cefnogi ein diwydiant drwyddo draw, gan addasu i beth bynnag y mae'r dyfodol yn ei daflu atom ni - ond byddwn yn parhau i ganolbwyntio ar y weledigaeth hirdymor.

Yn y tymor hir, ac er gwaethaf Covid-19 a'r DU yn gadael yr Undeb Ewropeaidd, mae ein nodau sylfaenol yn aros yr un fath. I wella cynhyrchiant, tyfu cysylltedd, ac ychwanegu gwerth. Adeiladu busnesau sy'n arloesol, yn wydn ac yn gynaliadwy.










Ar wahân i Covid ac Ymadael â'r UE, bydd y sbardunau newid allweddol hyn yn siapio cymdeithas dros y blynyddoedd i ddod.

**Poblogaeth sy'n heneiddio**
Mae datblygiadau mewn gofal meddygol, ynghyd â gostyngiad mewn cyfraddau geni, yn golygu bod y boblogaeth fyd-eang yn heneiddio.

**Dirywiad economaidd**
Roedd momentwm economaidd yn arafu hyd yn oed cyn pandemig Covid, gan wthio llawer o wledydd i ddirwasgiad.

**Yr amgylchedd o dan straen**
Mae'r defnydd o ynni ac adnoddau yn parhau i gynyddu.

**Polareiddio gwleidyddol**
Mae dadrithiad gyda'r sefydliad wedi achosi cynnydd mewn poblyddiaeth.

**Sylw ar iechyd**
Mae ffyniant cynyddol wedi arwain at gynnydd mewn bwyd wedi'i brosesu, er anfantais i iechyd.

**Merched yn y gweithlu**
Yn ystod y ddau ddegawd nesaf, bydd tua 1 biliwn o fenywod yn ymuno â'r gweithlu byd-eang.

**Cysylltedd eang**
Mae treiddiad ffonau symudol a'r rhyngrwyd yn parhau i godi yn fyd-eang.

**Gweithio gyda thechnoleg**
Bydd y gweithlu byd-eang yn cyrraedd lefelau uwch o awtomeiddio ac arloesi technoleg.

**Trefoli**
Bydd pwysau economaidd a demograffig dinasoedd mawr yn cynyddu.

## Tueddiadau allweddol sy'n siapio dewisiadau defnyddwyr mewn bwyd a diod:

**Bywydau symudol.**

**Cyfrifoldeb cynaliadwy. Ehangu digidol.**

**Profiadau uwch. Ymddiriedaeth a hunaniaeth.**

**Byw'n dda.**

# Cyflawni ein Gweledigaeth: 10 cam allweddol.

Byddwn yn eu cyflawni trwy bum ffordd o weithio egwyddor Datblygu Cynaliadwy Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) trwy feddwl a gweithredu yn y tymor hir, ceisio integreiddio, cynnwys eraill, cydweithredu a chymryd camau ataliol.

Byddwn yn canolbwyntio ar bum thema:

1. Cefnogaeth system gyfan i ddiwallu'r anghenion eang i ddarparu gwytnwch busnes a galluogi twf cynaliadwy.
2. Gweithredu'r gadwyn fwyd trwy gydweithredu'n agos â rhanddeiliaid trwy'r system fwyd ehangach.
3. Datblygu polisi ar ymchwil a thystiolaeth helaeth sy'n crynhoi arloesedd, technoleg ac awtomeiddio ac yn ystyried y nifer o bolisïau trawsbynciol sy'n gysylltiedig â bwyd.
4. Diwydiant bwyd a diod o'r radd flaenaf sydd ag enw da am frand cynaliadwy'n genedlaethol ac mewn marchnadoedd tramor ac sy'n denu buddsoddiad i Gymru.
5. Diwydiant bwyd a diod sy'n darparu gwaith teg, datblygu sgiliau a llwybrau gyrfa.



Bydd adegau pan fydd angen i ni newid pwyslais i ddefnyddio ein hadnoddau lle mae eu hangen fwyaf, neu lle gallan nhw gael yr effaith fwyaf. Bydd angen i ni ymateb yn gyflym i heriau a chyfleoedd na chafodd eu rhagweld. Ond byddwn bob amser yn ymdrechu i gadw ffocws cadarn ar y darlun ehangach.

# 01. Pŵer yw gwybodaeth.

**Ni allwch wneud y penderfyniadau gorau oni bai eich bod yn gweithredu ar y wybodaeth orau. Mae gan ein Rhaglen Mewnwelediad y wybodaeth ddiweddaraf am farchnadoedd yng Nghymru, y DU a gwledydd ledled y byd. Dyma yw sylfaen y cyngor a gynigiwn trwy gymorth busnes un i un a thrwy ein rhaglen rhwydwaith clwstwr. Rydym ni'n comisiynu ymchwil a data ffynhonnell, ac rydym ni wastad yn cadw llygad am dueddiadau a marchnadoedd sy'n dod i'r amlwg.**

Rydym ni'n sicrhau bod llawer o'r ymchwil ar gael am ddim trwy seminarau ac ar ein gwefan – *businesswales.gov.wales/foodanddrink/cy/perfformiad-bwyd-diod-yng-nghymru*

Ceir yno bopeth o drosolwg o'r diwydiant i adroddiadau sy'n mynd at wraidd materion fydd yn rhoi'r manylion i chi.

Mae ein Hadolygiad Economaidd yn rhoi gwybodaeth fanwl am berfformiad y diwydiant, gan gwmpasu trosiant, cyflogaeth a chyfrifon busnes ar draws yr is-sectorau bwyd a diod allweddol. Mae'r Bwletin Allforio Bwyd a Diod Cymru yn tyrchu i werth a chyfaint allforion bwyd a diod, tra bod gan Adroddiad Gwybodaeth y Farchnad Lafur wybodaeth fanwl am gyflogaeth, demograffeg, sgiliau, enillion a swyddi gwag.

## Cyflawni mantais gystadleuol.

Mae'r Gynhadledd Mewnwelediad yn ddigwyddiad tridiau blynyddol, mewn partneriaeth ag Arloesi Bwyd Cymru, sy'n cynnwys y data a'r rhagfynegiadau diweddaraf gan siaradwyr a phaneli arbenigol, fydd yn eich helpu i ddeall eich marchnad, cadw llygad ar y gorwel, a sut i ddatblygu eich busnes. Fe'i cynlluniwyd i roi mewnwelediadau sy'n werthfawr ac yn berthnasol, gyda sesiynau cynhadledd wedi'u teilwra i anghenion gwahanol feysydd busnes.

### Radnor Hills Water Company — ar flaen y gad.

"Roedd y cyflwyniadau a data'r farchnad yn ystod y Gynhadledd Mewnwelediad yn ddefnyddiol iawn. Gwnaeth ein tîm marchnata adeiladu'r astudiaethau achos hyn i mewn i ddeciau a chynigion ac mae'n dangos canlyniadau cryf iawn. Gobeithio y bydd hyn yn parhau yn y blynyddoedd i ddod gan fod y dirwedd bob amser yn newid ac mae'r mewnwelediadau hyn yn gwneud i ni sefyll allan."

*radnorhills.co.uk*



# 02. Goroesi a ffynnu.

**Rydym ni'n barod am siwrne hir. Rydym ni eisiau i bob busnes dyfu'n fwy, yn well ac yn gryfach.**

**I ddod yn fwy cynhyrchiol, proffidiol a chystadleuol, flwyddyn ar ôl blwyddyn. I fanteisio ar gyfleoedd i awtomeiddio. I fod yn gynaliadwy ym mhob ystyr: yn economaidd gadarn, ond hefyd yn hyrwyddo gwerthoedd datgarboneiddio, cynaliadwyedd amgylcheddol a Gwaith Teg.**

Mae angen i ni arfogi perchnogion busnes â'r adnoddau rheoli ac arwain cywir: cynllunio busnes, rheolaeth ariannol a datblygu pobl yw hanfodion rhedeg busnes cryf.

Mae angen i ni helpu busnesau i recriwtio, cadw a hyfforddi'r talent cywir, a gwella sgiliau ym mhob disgyblaeth. Rydym ni'n gofyn i fusnesau helpu i ddenu pobl ifanc i'r diwydiant.

Rydym ni eisiau i bawb ymdrechu i gyrraedd safonau uchaf y diwydiant ym mhopeth maen nhw'n ei wneud.

Rydym ni eisiau i bob busnes gyflawni achrediadau a dyfarniadau, ffordd bwerus o adeiladu enw da Brand Cymru am ragoriaeth.

Yn anad dim, rydym ni eisiau ysgogi ymdeimlad pwerus o arloesi: arloeswyr bwyd a diod nad oes ofn arnyn nhw i wthio ymlaen ac archwilio ffiniau newydd.

## Coaltown Coffee — cyfuniad o uchelgais a moeseg.

**Sefydlwyd Coaltown Coffee yn 2014 gyda dim ond dau aelod o staff oedd ag un uchelgais: dod â gwaith yn ôl i'w tref enedigol, Rhydaman.**

**Maen nhw'n canolbwyntio ar fasnach gynaliadwy gyda ffermydd bach o bob rhan o'r rhanbarthau sy'n tyfu coffi yn y byd.**

**Yn 2019 llwyddon nhw i gyrraedd statws B Corporation Ardystiedig - nodwedd o fath newydd o fusnes moesegol, sy'n cydbwyso elw â phobl a'r blaned.**

**Mae Coaltown bellach yn cyflogi 14 o bobl leol ac yn ehangu i Abertawe a Chaerdydd.**

*coaltowncoffee.co.uk*

# Aðnabyððiaeth.

Mae'n dda cael eich cydnabod a'ch gwobrwyo am wneud pethau da. Mae hefyd yn ffordd bwerus o adeiladu ymddiriedaeth yn eich cwsmeriaid a gwella'ch enw da yn y farchnad.

Mae prynwyr masnach yn chwilio am achrediad parchus y diwydiant. Mae defnyddwyr yn disgwyl y safonau hylendid bwyd uchaf ac yn chwilio am y cynhyrchion maen nhw'n ymddiried ynddyn nhw. Mae cyflawni'r gydnabyddiaeth hon yn adnodd marchnata pwerus sy'n hysbysu defnyddwyr, ar amrantiad, y gall eich cynnyrch ddangos diwydrwydd dyladwy hefyd, yn anfon neges gref sy'n atseinio trwy'r gadwyn gyflenwi, gan ddyrchafu ein statws fel sector.

Po fwyaf rydym ni'n adeiladu'r perthnasoedd hyn yn unigol, y gorau oll i bob un ohonom ni gyda'n gilydd.






"Yn ystod taith i Efrog Newydd yn 2017, a ariannwyd gan Lywodraeth Cymru, daethom ni ar draws brand B Corp yn aml," meddai'r sylfaenydd Scott James. "Roeddem ni wastad wedi dilyn tueddiadau America yn agos, ac roedd B Corp yn apelio atom ni gan ei fod yn bopeth roeddem ni'n credu ynddo fel cwmni. Mae'n profi bod cynhyrchion yn dod o ffynonellau moesegol a bod gan y busnes gymaint o gydwybod foesegol â phosib. Mae'r ardystiad hwn yn eich gosod ar wahân ac yn apelio at gynhyrchwyr gweithgynhyrchu bwyd modern allweddol."

© James Bowden

# 03. Adeiladu rhwydweithiau.

**Mae'r ychydig flynyddoedd diwethaf wedi dangos pa mor fregus y gall cadwyni cyflenwi fod, yn enwedig pan fyddan nhw'n ymestyn ar draws cyfandiroedd. Gwnaethom ni ddysgu gwerth eu cadw'n fyr ac yn lleol - gan gydweithredu yn ein cymunedau i gefnogi ein heconomi yng Nghymru.**

Mae ein diwydiant bwyd a diod wastad wedi bod â'r ymdeimlad colegol hwn o gydweithio: pŵer 'clystyru' i rannu adnoddau a syniadau. Ond gallwn ni fynd ymhellach.

Gallwn ddyfnhau ac ehangu'r model clwstwr ym mhob rhan o'r diwydiant, gan groesi ffiniau i sectorau eraill ein diwydiant bwyd a diod. Gallwn gysylltu ag ymchwil, hyfforddiant ac arbenigedd technegol. Gallwn ffurfio cynghreiriau newydd pwerus.

Mae hyn yn dda i bawb. Mae'n creu mwy o gyfleoedd, yn ychwanegu gwerth, yn lledaenu arfer gorau, ac yn cadw cyfoeth yn ein cymunedau. Bydd yn caniatáu inni gyflwyno cynhyrchion a syniadau newydd, a datblygu dull mwy effeithlon ac effeithiol o gyfathrebu a chydweithredu.

## Dylan's — troi'r dirywiad.

Wynebodd y grŵp bwytai rhanbarthol Dylan's fygythiad dirfodol Covid a throi'r argyfwng i'w fantais. Ym mis Mawrth 2020 gwnaethon nhw ddatblygu pizzas a chawliau i'w gwerthu trwy fanwerthwyr lleol ledled gogledd Cymru, ac yna creu detholiad o brydau parod o ansawdd bwyty 'Dylan's At Home'. Yn 2021 gwnaethon nhw sefydlu Siop Nwyddau Pobi a Siop Gyffredinol ac agor eu hadeilad pwrpasol cyntaf ym Mhorthaethwy.

Mae Dylan's yn parhau i hyrwyddo cynnyrch lleol yng nghefn gwlad y gogledd. "Mae mynd yn uniongyrchol i'r fferm - er enghraifft, fferm Dolmeinir ar Ynys Môn ar gyfer ein cig oen Cymru - wedi rhoi perthynas ddibynadwy, gyfeillgar a hirdymor i ni a'u teulu nhw, sydd wedi cyfrannu'n sylweddol at sefydlogrwydd ein dau fusnes", meddai David Evans.

Roedd cyfathrebu tarddiad a threftadaeth y detholiad At Home hefyd yn bwysig. Maen nhw'n hynod falch o roi 'Gwnaed ar Ynys Môn' - 'Made on Anglesey' ar eu pecynnau, gyda negeseuon dwyieithog ar bob cynnyrch.

*dylansrestaurant.co.uk*




"Trwy'r cyfnod ofnadwy o anodd hwn, roeddem ni'n ffodus iawn i gael cefnogaeth Llywodraeth Cymru sydd wastad wedi profi i ni faint maen nhw'n gwerthfawrogi'r economi bwyd yng ngogledd Cymru," meddai'r cyfarwyddwr David Evans. "Gwnaeth derbyn cyllid ein galluogi i gefnogi ein gweithlu llawn a buddsoddi'n y busnes i sicrhau ein bod yn dod allan o'r pandemig yn gryfach."

© Dylans Restaurant

# 04. Troi gwendid yn gryfder.

**Rydym ni'n gwneud llawer o bethau'n iawn. Ond rydym ni eisiau nodi meysydd ble rydym ni naill ai'n tanberfformio neu ble mae lle i godi i'r lefel nesaf, ac ysgogi twf mewn meysydd a fydd o fudd i bawb.**

Er enghraifft, gallwn ni geisio adeiladu gallu agregwyr a chyfanwerthwyr yng Nghymru.

Gall y rhain fod yn ganolbwynt i gynhyrchwyr, yn eu helpu i adeiladu rhwydweithiau cyflenwi lleol ac yna ymestyn i mewn i farchnad ehangach. Byddai hyn yn ei dro yn denu buddsoddiad mewn adeiladu adeiladau gradd-bwyd sy'n manteisio ar y dechnoleg carbon isel ddiweddaraf.

Byddwn yn parhau i helpu i greu busnesau newydd trwy ein cymorth busnes Cywain a byddwn yn hyrwyddo'r sector i gymunedau BAME i dynnu sylw at y cyfleoedd busnes a'r llwybrau gyrfa. Ond rydym ni hefyd eisiau targedu ehangu busnes fel bod mwy o fusnesau bach yn dod yn ganolig eu maint, y rhai canolig yn tyfu'n fawr - gyda'r pŵer i ddangos delwedd gadarnhaol o holl ddiwydiant bwyd a diod Cymru i'r farchnad ehangach.

Ac wrth iddyn nhw dyfu, byddwn yn helpu cwmnïau i ddenu buddsoddiad, fel y gall busnesau Cymru ffynnu.

## The Parsnipship — tir ffrwythlon ar gyfer twf organig.

**Dechreuodd The Parsnipship ar ei daith yn 2007 fel diwydiant cartref llythrennol i fynd i'r afael â'r dewisiadau prin oedd ar gael i lysieuwyr a feganiaid. Nawr gydag achrediad newydd a chefnogaeth Llywodraeth Cymru, mae The Parsnipship yn mynd â'i greadigaethau i'r sector gwasanaeth bwyd ac i allfeydd manwerthu mwy.**

**Tyfodd y busnes yn organig, gan symud trwy ddigwyddiadau bwyd i gyfanwerthu, gyda chymorth Llywodraeth Cymru ar hyd y ffordd. "Rydym ni wedi cael eu cefnogaeth ers blynyddoedd," meddai Flo. "Gwnaethom ni fwynhau mentora trwy Cywain, manteision bod yn rhan o Glwstwr Bwydydd Da Llywodraeth Cymru, a nawr holl fuddion Achrediad SALSA rydym ni wedi'u hennill gyda chefnogaeth Canolfan Diwydiant Bwyd ZERO2FIVE. Mae angen y bathodynnau arnoch chi, ond mae'r cyngor a'r arweiniad hefyd yn amhrisiadwy. "**

*theparsnipship.co.uk*



# 05. Cymorth technegol.

**Yng Nghymru mae gennym ni rwydwaith o ganolfannau ymchwil ac arloesi i ymfalchïo ynddyn nhw. Mae'n uno gwybodaeth helaeth ac arbenigedd ac yn sicrhau bod arloesi wrth wraidd Prosiect HELIX, Canolfan Gweithgynhyrchu Uwch Cymru, ac AberInnovation, y mae pob un ohonyn nhw'n gweithio law yn llaw â'n diwydiant bwyd a diod.**

Mae Arloesi Bwyd Cymru a Phrosiect HELIX wedi cefnogi cwmnïau bwyd a diod i dyfu, arloesi, cystadlu a chyrraedd marchnadoedd newydd. Byddwn yn ehangu ac yn ymestyn ein gallu i ddarparu'r gefnogaeth dechnegol fwyaf priodol, gan ymuno â sefydliadau partner eraill.

Mae'r Ganolfan Ymchwil Gweithgynhyrchu Uwch yn Sir y Fflint yn rhan o rwydwaith o ganolfannau ymchwil ac arloesi. Maen nhw'n helpu gweithgynhyrchwyr y rhanbarth i gael mynediad at dechnolegau uwch i wella cynhyrchiant, perfformiad ac ansawdd. Maen nhw hefyd yn cydweithredu â Llywodraeth Cymru a Ffederasiwn Bwyd a Diod Cymru i gefnogi gweithgynhyrchwyr i ddad-risgio arloesedd a chyflymu twf cynaliadwy.

Mae AberInnovation, yn cynnig arbenigedd sydd ar flaen y gad yn fyd-eang yn y sectorau biotechnoleg, amaeth-dechnoleg, a bwyd a diod.

Mae ein holl ymchwil ac arloesedd yn cael ei yrru gan anghenion y diwydiant a heriau byd-eang fel diogelwch bwyd, cynaliadwyedd a newid hinsawdd.

Rydym ni eisiau i'n diwydiant barhau i fanteisio ar yr adnodd cyffrous hwn a gwneud y mwyaf o'r dechnoleg a'r syniadau diweddaraf i ddod yn well, yn wyrddach, yn fwy effeithlon, yn fwy cynaliadwy.

## Troi syniadau arloesol yn realiti ymarferol.

**O fusnesau newydd i fusnesau sefydledig, mae Arloesi Bwyd Cymru wrth law i ddarparu cefnogaeth dechnegol a masnachol. Mae wedi'i leoli mewn tair canolfan fwyd ledled Cymru:**

Mae Canolfan Fwyd Cymru yn Llandysul yn darparu gwasanaethau technegol i fusnesau newydd, busnesau bach a chanolig a gweithgynhyrchwyr bwyd cenedlaethol, gyda chyfres o gyfleusterau modern a phedair uned hybu busnes.


Mae gan y Ganolfan Technoleg Bwyd yn Llangefni ystod o offer modern peilot ac ar raddfa ddiwydiannol i ymgymryd â phob agwedd ar ddatblygu cynnyrch newydd hyd at lansiad cynnyrch llwyddiannus.

Mae gan Ganolfan Diwydiant Bwyd ZERO2FIVE ym Mhrifysgol Fetropolitan Caerdydd dechnolegwyr bwyd a diod profiadol, arbenigwyr busnes ac academyddion sy'n arbenigo ym mhob agwedd ar arloesi bwyd a diod.

.









# 06. Marchnad y DU.

**Mae cynnyrch Cymreig yn haeddu lle amlwg ar silffoedd pob manwerthwr yn y DU. Mae ein Cynllun Manwerthu yn canolbwyntio ar fanwerthwyr mawr y DU, sy'n cadarnhau ein hymrwymiad i gynyddu gwerthiant a phroffil cynnyrch Cymreig.**

Rydym ni hefyd eisiau gwneud cynnydd sylweddol yn y sectorau gwasanaeth a chyfanwerthu, fel bod cynhyrchion Cymru yn dod o hyd i sawl llwybr i'r farchnad.

Mae hyn yn golygu cryfhau'r gadwyn gyflenwi gyfan: mae gofynion gwasanaeth bwyd yn dra gwahanol i ofynion y sector manwerthu, nid yw cynhyrchion yn trosi'n hawdd o'r naill i'r llall. Mae angen deall elfennau newidiol y gwasanaeth bwyd ac ymddygiad defnyddwyr.

Ar yr un pryd, bu symudiad mawr tuag at farchnata a gwerthu uniongyrchol i ddefnyddwyr sy'n cynnig cyfleoedd enfawr. Byddwn yn cefnogi busnesau unigol ac agregedig i werthu'n uniongyrchol neu drwy farchnadoedd ar-lein.

Mae bwyd a diod yn chwarae rhan fawr wrth helpu i adfywio ein strydoedd mawr a'n cymunedau. Byddwn yn ymdrechu i gynnwys bwyd a diod mewn cynlluniau adfywio lle bynnag y bo modd.

Byddwn yn cefnogi ac yn hyrwyddo marchnadoedd a gwyliau bwyd dethol, a hefyd yn parhau i gysylltu â thwristiaeth fewnol, gan ddefnyddio cyfleoedd i ddatblygu ein presenoldeb mewn lleoliadau wedi'u targedu ledled y DU.

## Tregroes Waffles — adeiladu ar ymddiriedaeth.

Dros 140,000 o waffls yr wythnos, 7 miliwn o waffls y flwyddyn - dyna'r allbwn syfrdanol o dref Llandysul yng ngorllewin Cymru a chartref Tregroes Waffles, brand blasus a nodedig a welir ledled y wlad o Waitrose i Trafnidiaeth Cymru.

"Mae Llywodraeth Cymru wedi gwneud yn dda iawn dros y blynyddoedd," meddai'r sylfaenydd a'r Iseldirwr sy'n siarad Cymraeg, Kees Huysmans. "Roedd ganddyn nhw'r weledigaeth fasnachol i helpu cynhyrchwyr bach fel fi, a chreu ymwybyddiaeth o gynhyrchion bwyd lleol, gan wneud y cyhoedd a manwerthwyr yn llawer mwy agored i brynu cynnyrch Cymreig."

Llandysul yw 'canol y bydysawd' i Kees, ac yma mae'r cwmni'n ehangu ym mowld John Lewis, gyda theulu Kees yn gwerthu cyfranddaliadau bob blwyddyn: "Mae gan yr 20 aelod o staff ran-berchnogaeth yn y busnes trwy ymddiriedolaeth rydym ni wedi sefydlu, ac mae hynny'n rhoi llais iddyn nhw yn ein dyfodol. Maen nhw eisiau cynyddu capasiti, felly rydym ni wedi bod yn gweithio gyda Banc Datblygu Cymru i adeiladu strwythur newydd drws nesaf lle gallwn ni gynyddu ein hallbwn yn ddramatig."


Mae achrediad Consortiwm Manwerthu Prydain yn caniatáu i Tregroes gyflenwi archfarchnadoedd cenedlaethol, yn ogystal â myrdd o gwmnïau annibynnol. Maen nhw'n gweithio gydag Arloesi Bwyd Cymru ar hyfforddi ac yn cydweithredu â Chanolfan Cydweithredol Cymru. Maen nhw wedi ymwreiddio yn y gymuned leol, yn gweithio gydag ysgolion, Sefydliad y Merched, Merched y Wawr ac elusennau lleol, pryd bynnag y bo hynny'n bosibl.

*tregroeswaffles.co.uk*







# 07. Y farchnad allforio.

**Mae ymwybyddiaeth gynyddol ledled y byd o frand Cymru, a galw cynyddol am ein nwyddau. Rydym ni'n gwybod o ymchwil fod y gair 'Cymreig' yn dynodi safonau uchel o ran ansawdd, moeseg, a chrefftwaith.**

BlasCymru/TasteWales yw ein digwyddiad blaenllaw, sy'n dod â chynhyrchwyr, prynwyr a gweithwyr proffesiynol y diwydiant bwyd ynghyd yn y digwyddiad a'r gynhadledd ar fasnach a bwyd rhyngwladol. Byddwn yn parhau i hyrwyddo cynnyrch Cymru ledled y byd, mewn sioeau masnach a digwyddiadau. Ein marchnad allforio fwyaf yw'r UE, ond rydym ni hefyd yn perfformio'n gryf mewn marchnadoedd allweddol fel Gogledd America a'r Dwyrain Canol. Byddwn yn parhau i ganolbwyntio ar ein marchnadoedd targed, gan weithio gyda Llywodraeth y DU a gweinyddiaethau eraill i wneud y gorau o gyfleoedd y farchnad.

Mae Ymadael â'r UE wedi dod â heriau, wrth gwrs. Wrth i'r DU lunio bargeinion masnach newydd, bydd y darlun allforio yn datblygu dros y degawd nesaf. Byddwn yn gwneud popeth o fewn ein gallu i helpu i leddfu'r newid i'r realiti newydd hwn.

Roedd allforion Bwyd a Diod Cymru werth £550m yn 2020. Y prif gyrchfannau oedd Iwerddon, Ffrainc a'r Iseldiroedd. Aeth tri chwarter y gwerth i'r UE.

Cynyddodd allforion bwyd a diod £115m rhwng 2016 a 2020. Y categorïau allforio gwerth uchaf yn 2020 oedd cynhyrchion cig eidion, cig oen a chig, ac yna cynhyrchion llaeth ac wyau.

Rydym ni'n benderfynol o adeiladu ar y llwyddiant hwn. Mae gan ein Cynllun Gweithredu Allforio, a lansiwyd yn 2020 fel rhan o'n strategaeth economaidd, gysylltiadau cryf â'n Cynllun Gweithredu Economaidd a'n Strategaeth Ryngwladol ar gyfer Cymru. Mae'n cynnwys ein diwydiant bwyd a diod fel sector â blaenoriaeth. Er mwyn cefnogi busnesau bwyd a diod sydd eisiau allforio, neu archwilio marchnadoedd byd-eang newydd, byddwn yn parhau i esblygu ein rhaglen o deithiau masnach rhithwir a chorfforol, cefnogaeth ariannol ar gyfer ymchwil sy'n gysylltiedig ag allforio a phresenoldeb mewn sioeau masnach, a chyngor wedi'i deilwra. Bellach mae gan ein Clwstwr Allforio fwy na 100 o aelodau ac mae'n parhau i ddenu aelodau busnes. Mae'n rhan o Rwydwaith Clwstwr Bwyd a Diod Cymru, sy'n dwyn ynghyd gyflenwyr, y byd academaidd a'r llywodraeth gyda'r amcan allweddol o helpu busnesau i sicrhau twf cyflym mewn gwerthiannau, elw a swyddi.

Mae'n bwysig ein bod yn parhau i adeiladu ar enw da ein diwydiant bwyd a diod a'i gynhyrchion. Mae Cymru yn adnabyddus am ei hymrwymiad i fodloni a chynnal y safonau amgylcheddol a lles uchaf, gostwng ei hôl troed carbon a lleihau gwastraff. Byddwn yn defnyddio digwyddiadau bwyd nod masnach fel BlasCymru/TasteWales, gan wneud y gorau o 'Brand Cymru', ac ehangu'r gyfres o gynhyrchion bwyd a diod gyda Dynodiad Daearyddol (GI) i arddangos tarddiad.

Wrth edrych tua'r dyfodol, byddwn yn ehangu ein gorwelion ble bynnag a phryd bynnag y daw posibiliadau newydd i'r amlwg. I rai busnesau - fel y sector bwyd môr, sy'n allforio 90 y cant o'u dalfa - mae'n hanfodol. I fusnesau eraill, gallai hyn gynnig cyfle cyntaf i ledu eu hadenydd yn rhyngwladol.

Allforio gydag angerdd.



## Ystâd Rhug — ansawdd yw ein cryfder mwyaf.

"Cryfder brand Cymru sy'n gyfrifol am lwyddiant Rhug, a gobeithio y bydd ansawdd cynhyrchion Cymru yn cael eu meithrin a'u gwarchod, oherwydd bod pobl yn prynu ansawdd." Dyna farn Robert Wynn, Arglwydd Newborough, sy'n ffermio Ystâd 12,500 erw Rhug yng ngogledd Cymru.

Arweiniodd angerdd am ffermio organig cynaliadwy yr Arglwydd Newborough i drawsnewid y busnes ym 1998, ac erbyn hyn mae Rhug Organic yn frand sy'n cario'r Warant Frenhinol ac yn ymddangos ar fwydlenni seren Michelin ledled y byd. Yn ystod y blynyddoedd diwethaf mae'r Ystâd wedi ychwanegu siop fferm, gyda hyd at 3,000 o eitemau Cymreig a chrefftus, caffi, prydau parod a chyfleuster gyrru drwodd.

"O werthu ein cynnyrch mewn faniau y tu allan i'r giât flaen i ddatblygu ein busnes cyfanwerthu ym mwytai gorau Llundain, rydym ni wedi tyfu trwy beidio â derbyn na fel ateb," meddai'r Arglwydd Newborough. "Mae cefnogaeth Llywodraeth Cymru wedi helpu gyda marchnata ac wedi profi i fod yn adnodd amhrisiadwy hyd yma. Mae'r Rhaglen Datblygu Masnach Ryngwladol yn ein galluogi i estyn allan at gwsmeriaid mewn sioeau a digwyddiadau masnach, ac archwilio marchnadoedd newydd."

*rhug.co.uk*

# 08. Adeiladu ein brand.

**O ran hyrwyddo Brand Cymru, rydym ni'n adeiladu o sylfaen gref iawn. Rydym ni'n gwybod o'n hymchwil fod gan gynnyrch Cymreig enw da am fod o ansawdd uchel, yn iach ac wedi'i wneud ag arbenigedd.**

Felly mae'n rhaid adeiladu ar ein cryfderau presennol, gan ddefnyddio dull 'arwr ac eurgylch'. Rydym ni eisiau datblygu teulu o gynhyrchion 'arwr' sy'n cynrychioli'r gorau o Gymru. Byddwn yn hyrwyddo'r rhain yn egnïol, gan eu helpu i yrru gwerthiannau a dominyddu eu marchnadoedd.

Mae'r 'effaith eurgylch' yn dilyn yn naturiol: gall y diwydiant cyfan elwa o sylfaen gref o frandiau proffil uchel. Trwy gysylltiad, bydd enw da Cymru gyfan yn cynyddu ymhellach.

Mae hefyd yn bwysig datblygu ystod fwy a chryfach o gynhyrchion Dynodiad Daearyddol (GI), er mwyn hybu ein henw da am gynhyrchion treftadaeth o ansawdd uchel.

## Gwerth Cymreig.

Mae ymchwil diweddar wedi dangos bod hyrwyddo hunaniaeth glir 'Gymreig' ar gynhyrchion yn aml yn ychwanegu gwerth sylweddol at ein brandiau rhyfeddol.

Byddai'n well gan dros 80 y cant o siopwyr a holwyd yng Nghymru brynu cynhyrchion o Gymru, gyda 72 y cant eisiau mwy o fwyd a diod o Gymru yn eu siopau, a 62 y cant yn credu ei bod yn bwysig iawn cael cynnyrch Cymreig ar fwydlenni.

Gwelir bod Cymreigrwydd yn arwydd o ansawdd gwych, ac mae cysylltiad cryf rhwng Cymru a chefn gwlad / natur.


### White Castle Vineyard — mae'r dyfodol yn ddisglair.

**Mewn sesiwn blasu dall, daeth eu Pinot Noir Reserve 2018 y vintage cyntaf o Gymru i ennill medal aur yng Ngwobrau Gwin y Byd Decanter 2020. Bellach mae ganddyn nhw gynlluniau i ehangu'r winllan o 2,000 yn rhagor o winwydd i 7,000 a chreu gwindy ar gyfer eu brandiau PDO eu hunain, yn ogystal â helpu cynhyrchwyr eraill o Gymru.**

**Wedi'i lleoli ar fferm o'r 16eg ganrif ym mryniau hyfryd Sir Fynwy, mae gwinllan White Castle yn cynhyrchu tua 7,000 o boteli y flwyddyn. Daw dwy ran o dair o'r busnes trwy dwristiaeth bwyd, gyda theithiau bws yn dod o lefydd mor bell â Ffrainc. Maen nhw nawr yn ceisio manteisio ar y ffyniant mewn gwinoedd o Gymru sy'n cael ei yrru gan newid yn yr hinsawdd.**

**Mae Robb hefyd yn gadeirydd Cymdeithas Gwinllannoedd Cymru. Meddai, "Rydym ni'n cefnogi'r clystyrau a'r dull cydweithredol yng Nghymru yn llwyr, sy'n ehangu ein rhwydweithiau ac yn ennill proffil cenedlaethol a rhyngwladol i ni trwy ddigwyddiadau. Rydw i mor falch o gario brand Cymru."**

*whitecastlevineyard.com*



"Mae'n wych beth maen nhw wedi'i wneud hyd yma," meddai'r perchennog Robb Merchant am y gefnogaeth y mae'n ei derbyn gan Lywodraeth Cymru. "Roedd ganddyn nhw'r rhagwelediad i weld pwysigrwydd bwyd a diod i economi Cymru, ac maen nhw'n barod i gefnogi cynhyrchion o safon."

# 09. Denu buddsoddiad.

**Ar ryw adeg, mae angen i fusnesau addawol fuddsoddi yn eu dyfodol. Ond nid yw twf er ei fwyn ei hun yn ddigon.**

**Mae adborth gan y diwydiant yn dweud wrthym ni y gall y gefnogaeth gywir ar yr adeg iawn fod yn bwysig i fusnesau yn enwedig ar gyfnodau hanfodol fel symud o fusnes 'newydd' i fusnes 'arferol', ac wrth gymryd cyfleoedd i ehangu.**

Felly rydym ni'n datblygu llwybr buddsoddi sy'n cefnogi busnesau i ddewis y buddsoddiad cywir, ar yr adeg iawn, gyda'r partneriaid cywir. Mae gennym ni ystod o fecanweithiau gan gynnwys datrysiadau cyllid busnes, a gwasanaethau i ddarparu atebion i fusnesau sy'n iawn iddyn nhw.

Gallai olygu buddsoddi mewn adeiladau gradd-bwyd i gynyddu nifer ac ystod yr eiddo sydd ar gael a llif gwybodaeth am y farchnad, neu gymorth ymchwil ac arloesi, neu helpu gyda mynychu sioeau a digwyddiadau masnach i gynyddu gwelededd a sefydlu cysylltiadau.

Rydym ni'n awyddus i ddenu buddsoddiad mewnol i Gymru, i greu busnesau newydd neu ddod â newid sylweddol i'r rhai sydd eisoes yma, i fod yn bartneriaid wrth adeiladu ein llwyddiant.

Rhaid i unrhyw fath o fuddsoddiad fod yn iawn i'r diwydiant, yn iawn i'r busnes unigol, a chyd-fynd â'n nodau strategol ehangach am y Gymru rydym ni eisiau bod. Ond os yw'ch busnes yn barod i gymryd y cam nesaf, neu os ydych chi eisiau buddsoddi yng Nghymru, yna rydym ni'n barod hefyd.


## Puffin Produce — buddsoddi mewn technoleg newydd a theimlo'n dda.

**Mae dros 60,000 tunnell o datws Cymreig yn cael eu golchi, eu didoli a'u pacio bob blwyddyn yn Puffin Produce yn Hwlffordd, gyda'u Blas Y Tir a'u brandiau eu hunain yn amlwg mewn manwerthwyr mawr ledled Cymru.**

**Mae trosiant blynyddol Puffin hyd at £27m gyda 180 o weithwyr yn y tymor brig. Tyfir dros 80 y cant o'r allbwn o fewn 15 milltir i ganolfan y cwmni yn Sir Benfro; mae 85 y cant o'r tatws yn cael eu pacio a'u dosbarthu, gyda'r gweddill yn mynd i wasanaeth bwyd, tra bod y tatws dros ben yn mynd i mewn i borthi stoc, felly does dim gwastraff bwyd.**

**"Gyda chefnogaeth a grantiau Llywodraeth Cymru, rydym ni wedi gallu buddsoddi £9m mewn ehangu a chynyddu awtomeiddio yn y ffatri, hybu effeithlonrwydd, a lleihau ein dibyniaeth ar lafur o ddwyrain Ewrop. Fel cynhyrchwyr eraill yn y sector, mae angen i ni gadw llygad am gyfleoedd yn y dyfodol a gynigir gan ein perthynas ag Ewrop, ac felly rydym ni'n dilyn y newyddion a'r datblygiadau diweddaraf yn y diwydiant yn agos."**

*puffinproduce.com*



Dywed y rheolwr gyfarwyddwr Huw Thomas, "Mae brand Blas Y Tir wedi datblygu enw da am ansawdd ac mae gennym ni gytundebau tymor hir gyda'n cwsmeriaid manwerthu, sy'n rhoi sefydlogrwydd i dyfwyr ledled Cymru."

# 10. Rhannu ein gwerthoedd.

**Mae gan ein hagwedd tuag at y diwydiant bwyd a diod rôl allweddol wrth greu Cymru lewyrchus a gwydn.**

**Cymdeithas sy'n iachach, yn hapusach ac yn decach, gyda diwylliant bywiog a iaith Gymraeg lewyrchus. Cymru werddach sy'n gyfrifol yn fyd-eang. Mae'n golygu ein bod yn ystyried yr effaith hirdymor ym mhob penderfyniad a wnawn.**

Cawn ein harwain gan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru), darn arloesol o ddeddfwriaeth Cymreig sy'n ein gyrru i wella ein lles cymdeithasol, diwylliannol, amgylcheddol ac economaidd.

Pan fyddwn yn cefnogi busnesau a sefydliadau yng Nghymru, rydym ill dau yn ymrwymo i Gontract Economaidd ac yn bwysicach fyth, bydd angen i chi ddangos eich bod yn rhoi'r gwerthoedd hyn ar waith: Gwaith Teg, carbon isel, defnydd cynaliadwy o adnoddau naturiol, gwytnwch yn erbyn yr hinsawdd, hyrwyddo llesiant, a gallu addasu'n economaidd.

Credwn fod popeth yn gysylltiedig. Nid ystyried dadleuon cymdeithasol, moesol a moesegol yn unig mae ein gweledigaeth. Rydym ni'n cymryd sgan 360 gradd o ble rydym ni, beth rydym ni'n ei wneud a sut gallwn ni wella, er budd pawb yn ein diwydiant.

## Rydym ni'n gweld hyn yn hanfodol i economi lewyrchus. Mae gan bob un ohonom ein rhan i'w chwarae wrth greu Cymru well.



Llun ar y dde: Gareth Stevenson,
cogydd Gwyrdd Michelin, Palé Hall, gogledd Cymru

Bwyd a Diod Cymru
Food & Drink Wales

bwyd-food@gov.wales
llyw.cymru/bwydadiodcymru